

Cyfarfod rhwng y Gweinidog a'r Trydydd Sector i drafod yr Economi a Seilwaith

Nodyn o'r cyfarfod a gynhaliwyd am 3:00 pm ddydd Llun 12 Chwefror 2018

Ystafelloedd Seminar 1 a 2 adeilad y Pierhead Bae Caerdydd.

Gweinidogion yn bresennol

Enw	Sefydliad
Ken Skates AC	Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith

Rhanddeiliaid yn bresennol

Matthew Brown	CLILC
Peter Jones	Cŵn Tywys Cymru
Hazel Lloyd-Lubran	Cefnogi Trydydd Sector Cymru
Lynne Hill	Plant yng Nghymru
Linda Tomos	Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Kate Evans	Cymdeithas Chwaraeon Cymru
Peter Williams	Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru
Gethin Rhys	Cyngor Rhyng-ffydd Cymru
San Leonard	Cwmnïau Cymdeithasol Cymru
David Williams	Cwmnïau Cymdeithasol Cymru
Derek Walker	Canolfan Gydwethredol Cymru
Matt Appleby	BiTC Cymru
Brychan Tudor	Celfyddydau Anabledd Cymru
Anne Meikle	Cyswllt Amgylchedd Cymru

Ymddiheuriadau

Christine Boston	Cymdeithas Cludiant Cymunedol Cymru
------------------	-------------------------------------

Swyddogion Llywodraeth Cymru

Stephen Layne	Pennaeth Dros Dro Polisi Economaidd
Derek Goode	Polisi a Strategaeth Economaidd (cofnodi)
Rhodri Griffiths	Polisi , Cynllunio a Phartneriaethau Trafnidiaeth

1. Cyflwyniadau a sylwadau agoriadol

- 1.1 Croesawodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith yr aelodau i'r cyfarfod rhwng y Gweinidog a'r Trydydd Sector, sef y cyntaf i'w gynnal yn 2018.
- 1.2 Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet ein bod, ers y cyfarfod diwethaf, wedi cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi a dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at glywed sylwadau'r aelodau yn y cyfarfod hwn.
- 1.3 Cyn symud ymlaen i drafod y prif eitemau ar yr agenda, gofynnodd Ysgrifennydd y Cabinet a oeddent wedi gweld cofnodion y cyfarfod diwethaf ac a oeddent yn cytuno eu bod yn gywir. Cadarnhaodd yr aelodau eu bod yn cymeradwyo'r cofnodion.
- 1.4 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod pedwar mater yn codi o'r cyfarfod blaenorol.

Cam i'w gymryd 1 - Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet fod yr adroddiad ar ganlyniadau'r ymgynghoriad ynghylch Tocynnau Bws Rhatach Gorfodol yn cael ei gwblhau'n barod i'w gyhoeddi. Caiff ei gylchredeg i aelodau'r cyfarfod hwn pan fydd ar gael.

Cam i'w gymryd 2 – Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn cyfeirio at rôl yr economi gymdeithasol a'r cymorth a fydd ar gael gan Lywodraeth Cymru.

Cam i'w gymryd 3 - Gofynnodd Ysgrifennydd y Cabinet i Rhodri Griffiths roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn y cyswllt hwn. Esboniodd Rhodri fod yr Adran Drafnidiaeth wedi cyhoeddi papur ymgynghori ddydd Gwener diwethaf. Roedd yr ymateb cychwynol yn gefnogol ac roedd Llywodraeth Cymru wedi cytuno eisoes i'r grŵp hwn weld ei hymateb i'r ymgynghoriad.

Cam i'w gymryd 4 – Lanswyd y Cynllun Gweithredu ar yr Economi ar 12 Rhagfyr felly bydd y cyfarfod heddiw'n gyfle i'r aelodau drafod y cynllun a rhoi eu sylwadau.

- 1.5 Cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet yr agenda gan esbonio bod dwy eitem allweddol i'w trafod. Yr eitem gyntaf oedd papur y Trydydd Sector ar yr ymgynghoriad ynghylch "Tocynnau Bws Rhatach" a'r ail oedd papur y Trydydd Sector ar y Cynllun Gweithredu ar yr Economi.

2. Ymateb y Trydydd Sector i'r ymgynghoriad ynghylch 'Tocynnau Bws Rhatach Gorfodol yng Nghymru'

- 2.1 Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet ein bod wedi cael ymateb da iawn i'r ymgynghoriad a bod 470 o ymatebion wedi dod i law. Roedd y rhain yn amlygu rhai themâu pendant o ran yr hyn oedd yn bwysig i bobl.
- 2.2 Gofynnodd Ysgrifennydd y Cabinet i Hazel Lloyd-Lubran gyflwyno papur y Trydydd Sector.

- 2.3 Diolchodd Hazel i Ysgrifennydd y Cabinet am y cyfle i gyflwyno'r papur yn y cyfarfod hwn. Dywedodd y bydd yr ymgynghoriad cyffredinol yn cyfeirio at rai o'r pwyntiau a godir ond roedd yn bwysig eu tanlinellu eto gan fod eu papur yn cynrychioli safbwyntiau a gasglwyd gan amrywiaeth eang o bobl, yn lleol ac yn genedlaethol.
- 2.4 Aeth Hazel rhagddi i danlinellu rhai o'r prif bwyntiau ym mhapur y Trydydd Sector.
- 2.4 Dywedodd Hazel fod anghysondeb yn y gorffennol yn y modd y cafodd y polisi tocynnau rhatach ei roi ar waith. Roedd nifer o enghreifftiau gwahanol ac, yn gyffredinol, barn y Trydydd Sector oedd y byddai'n syniad da i Llywodraeth Cymru reoli'r gostyngiad ei hwn er mwyn creu cysondeb.
- 2.5 Fodd bynnag, er y byddai'n well ganddynt pe bai Llywodraeth Cymru yn rheoli'r broses o gyflwyno tocynnau rhatach, esboniodd Hazel na ddylai'r newid hwn greu oedi ac na ddylai leihau atebolrwydd lleol na gallu pobl i gysylltu â rhywun yn gyflym i ofyn am gymorth.
- 2.6 Esboniodd Hazel na all rhai pobl anabl deithio weithiau heb fynd â phobl eraill gyda nhw i'w cynorthwyo. Esboniodd hefyd fod angen i ofalwyr weithiau deithio heb yr unigolyn roeddent yn gofalu amdanynt.
- 2.7 Aeth rhagddi i ofyn i'r Llywodraeth beidio â lleihau cymhwysra pobl anabl gan ddweud y dylid, yn hytrach, ei ehangu. Esboniodd fod y newidiadau yn system budd-daliadau'r DU eisoes wedi effeithio er gwaeth ar bobl anabl. Bydd unrhyw ostyngiad yn eu gallu i hawlio tocynnau bws rhatach yn un cam yn ormod.
- 2.8 Esboniodd Hazel fod gwirfoddolwyr yn dyngedfennol i grwpiau cymunedol a bod costau teithio'n gost sylweddol i grwpiau o'r fath. Byddai penderfyniad i ganiatáu i wirfoddolwyr deithio am ddim, neu am bris rhatach, yn gymorth mawr i'r gwirfoddolwyr eu hunain, ac i'r cyrff a'r cymunedau roeddent yn eu gwasanaethu. Awgrymodd Hazel y gallai'r cynllun tocynnau bws rhatach weithredu mewn nifer o ffyrdd mewn perthynas â gwirfoddolwyr ac awgrymodd y byddent yn gallu helpu â'r agweddau ymarferol ar weinyddu'r elfen hon o'r cynllun.
- 2.9 Cyfeiriodd Hazel at y rhai sy'n gorfod teithio yn ystod yr oriau prysuraf. Nid yw bob amser yn bosibl i bobl deithio yn ystod yr amseroedd tawelaf, er enghraifft, os oedd ganddynt apwyntiad, neu os oeddent yn teithio i'r gwaith. Roedd yn rhaid i'r cynllun gynnwys amseroedd prysur hefyd.
- 2.10 Esboniodd Hazel nad yw tocynnau bws rhatach yn ddefnyddiol mewn rhai ardaloedd yng Nghymru gan nad oes gwasanaethau bws i'w cael. O dan yr amgylchiadau hyn, awgrymodd Hazel y dylid ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio tacsis a gwasanaethau 'dial a ride'.
- 2.11 Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet i Hazel am gyflwyno'r papur ac am y pwyntiau a gododd. Dywedodd ei fod yn ymwybodol bod prinder bysiau mewn rhai ardaloedd yn atal rhai rhag cael gwaith. Os nad oes bysiau ar gael, mae'n

hanfodol bod dulliau eraill o deithio i'w cael. Caiff dulliau eraill o deithio, gan gynnwys tacsis, dulliau teithio llesol a dulliau arloesol eraill eu hystyried fel rhan o unrhyw ddiwygiadau arfaethedig.

- 2.12 Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet mai yn 2003 y cynhaliwyd yr ymgynghoriad diwethaf, felly nid oedd fawr o syndod bod anawsterau sylweddol wedi codi o ran y modd roedd y system yn gweithio.
- 2.13 Yna, aeth Ysgrifennydd y Cabinet ati i ddisgrifio'r broses o hyn ymlaen. Esboniodd y byddwn yn cynnal asesiad llawn o'r sylwadau a ddaeth i law fel rhan o'r ymgynghoriad, gan gynnwys papur y Trydydd Sector a'r drafodaeth a heddiw. Erbyn mis Ebrill, byddwn yn cyhoeddi'r canlyniadau a'r casgliadau ynghyd â chanlyniadau'r prosesau ymgynghori â phobl ifanc, bysiau lleol a thacsis.
- 2.14 Dywedodd Peter Jones ei bod yn hanfodol sicrhau na fyddai unrhyw newidiadau'n effeithio er gwaeth ar bobl anabl. Dywedodd bod achosion wedi codi eisoes pan wrthodwyd i bobl anabl deithio ar eu pennau'u hunain. Diolchodd Rhodri Griffiths i Pete am y wybodaeth hon a dywedodd y byddai'n ysgrifennu at awdurdodau lleol i esbonio'r rheoliadau.

Cam gweithredu 1

Llywodraeth Cymru i ystyried y canllawiau presennol a gaiff awdurdodau lleol mew perthynas â'r cynllun tocynnau bws rhatach ac, os bydd angen, bydd yn adolygu ac yn ailgyhoeddi'r canllawiau i sicrhau mwy o gysondeb drwy Gymru gyfan.

- 2.15 Diolchodd Rhodri am y papur a'r cyfraniadau, a oedd yn ddefnyddiol iawn, a dywedodd y byddai'n siarad eto yn y dyfodol.

3. Ymateb y Trydydd Sector i'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi

- 3.1 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y Cynllun Gweithredu ar yr Economi wedi'i gynllunio i annog a hybu twf economaidd ym mhob cymuned ac i helpu i sicrhau bod gan bobl a busnesau'r sgiliau a'r seilwaith sydd eu hangen arnynt. Esboniodd fod y pwyslais yn awr ar roi'r Cynllun ar waith.
- 3.2 Cyfeiriodd Ysgrifennodd y Cabinet at y ffaith bod y Cynllun Gweithredu'n newid cyfeiriad yn sylweddol, ac roedd hynny'n cynnwys y Contract Economaidd a gynlluniwyd i hyrwyddo rhaglen twf cynhwysol. Soniodd am enghreifftiau rhyngwladol yng Nghanada a'r Alban sydd wedi llwyddo i roi eu rhaglenni twf cynhwysol eu hunain ar waith.
- 3.3 Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y broses o roi'r Cynllun Gweithredu ar waith yn cael ei hystyried ar hyn o bryd ac y byddai'n croesawu sylwadau ar agweddau allweddol fel y Contract Economaidd.

- 3.4 Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet fod hyrwyddo lechyd a Lles Meddyliol yn elfennau tyngedfennol o'r Cynllun a'i bod yn bwysig i'r llywodraeth greu amodau sy'n golygu nad yw pobl yn casáu mynd i'r gwaith bob dydd.
- 3.5 Tanlinellodd Ysgrifennydd y Cabinet fod gorgyffwrdd sylweddol rhwng y galw i weithredu yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi a'r 'Heriau Mawr' a nodwyd yn Strategaeth Ddiwydiannol y DU a'r cyfleoedd i wneud cais am gyllid cystadleuol sydd ar gael yn y DU drwy'r Strategaeth Ddiwydiannol.
- 3.6 Cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd at yr anghysondeb daearyddol yn economi Cymru. Mae gwahanol rannau o Gymru yn wynebu gwahanol broblemau ac, oherwydd hynny, byddwn yn gweithio'n fwy rhanbarthol er mwyn ymdrin â'r cyfleoedd a'r problemau penodol sy'n wynebu'r gwahanol rannau o Gymru.
- 3.7 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei bod yn bwysig symleiddio cymorth i fusnesau i hwyluso'r broses i fusnesau Cymru.
- 3.8 Tanlinellodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod am weithio gyda'r Trydydd Sector i roi'r Cynllun ar waith. Roedd yn croesawu papur y Trydydd Sector a gofynnod i Derek Walker ei gyflwyno.
- 3.9 Roedd Derek Walker yn croesawu'r Cynllun ar y cyfan ac yn credu ei fod yn dilyn y trywydd priodol gan gynnig dull cliriach o weithredu, sy'n fwy cynhwysol nag o'r blaen. Yn benodol, dywedodd fod y cymorth roedd yn ei gynnig o'r economi sylfaenol yn gadarnhaol ac yn amlygu rôl allweddol y Trydydd Sector yn yr economi honno.
- 3.10 Holodd Derek am yr ymgynghoriad a'r gwaith o benderfynu ar fanylion y broses o weithredu'r Cynllun, gan nodi bod y Cynllun yn cyfeirio at y rhain. Roedd am i'r Trydydd Sector fod yn rhan o'r cynlluniau gweithredu manwl. Roedd datblygu'r Contract Economaidd yn dyngedfennol ac esboniwyd y gallai'r Trydydd Sector helpu i lywio'r gwaith hwn fel bod y Contract yn cydbwysu'r ystyriaethau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.
- 3.11 Esboniodd Derek y cais allweddol ym mhapur y Trydydd Sector i sefydlu fframwaith busnes cymdeithasol. Er bod rhaglen twf cynhwysol y Cynllun yn cyd-fynd ag amcanion y Trydydd Sector, mae canfyddiad mai cymharol ymylol yw'r Trydydd Sector o ystyried sawl gwaith y cyfeirir ato'n uniongyrchol yn y Cynllun. O safbwynt y Trydydd Sector, roedd yn parhau i gredu bod angen sefydlu fframwaith a oedd â dealltwriaeth benodol o ddatblygu busnesau cymdeithasol.
- 3.12 Pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet bwysigrwydd gweithio fel partneriaeth gan ddweud y dylai cynlluniau, fframweithiau a strategaethau ddwyn partneriaid ynghyd i geisio cyflawni amcanion allweddol. Esboniodd fod y Cynllun wedi'i gynllunio i greu economi decach a newid diwylliannol sy'n bwysig i fusnesau cymdeithasol. Cyfeiriodd at y cyfle posibl i ehangu'r Contract Economaidd yn y dyfodol er mwyn cynnwys y gyllideb caffael cyhoeddus, sy'n werth £6 biliwn a'r cyfleoedd y gallai hyn eu cynnig i fusnesau cymdeithasol.

- 3.15 Roedd Ysgrifennydd y Cabinet am i'r Trydydd Sector ddweud beth sydd ei angen arnynt i dyfu'r sector ac fe'u hanogodd i gynnig syniadau. Dywedodd fod y gwaith a oedd yn mynd rhagddo mewn perthynas â'r cynlluniau gweithredu'n dyngedfennol a gofynnodd i Stephen Layne ddweud ychydig am hyn y gwaith.
- 3.16 Esboniodd Stephen Layne sut y byddai'r Cynllun yn cael ei roi ar waith erbyn mis Ebrill. Dywedodd y caiff pob elfen, y Contract Economaidd, y galw am weithredu a Chronfa'r Dyfodol, eu rhoi ar waith fesul cam. Trefnwyd nifer o ddigwyddiadau mewnol ac allanol ym mis Mawrth i drafod sut i wneud hyn.
- 3.17 Esboniodd Stephen mai nawr yw'r adeg i benderfynu ynghylch union gynnwys y Contract Economaidd, y trothwyon a baich y prawf ar fusnesau. Tanlinellwyd pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd, gan osod y safon yn ddigon uchel i sbarduno newid, ond nid yn rhy uchel fel na all busnesau ei chyrraedd. Mae modd gwneud hyn oll dros y misoedd nesaf ac mae croeso i'r Trydydd Sector gyfrannu a chynnig sylwadau.
- 3.18 Cyfeiriodd Stephen hefyd at y ffaith mai Rhodri oedd yr Arweinydd Rhanbarth ac y byddai rhagor o gyfleoedd i gyfrannu at y maes datblygu hwnnw.
- 3.19 Soniodd Anne Meikle am ddatgarboneiddio mewn perthynas â'r broses gaffael yn y dyfodol. Esboniodd ei bod yn dda gweld bod cynllun Llywodraeth Cymru yn cynnwys elfennau'n ymwneud â chynaliadwyedd ond roedd yn hanfodol cynnwys arferion cynaliadwy yn y broses gaffael yn yr un modd ag y oedd mesurau cymdeithasol a moesegol wedi'u cynnwys eisoes. Yn ei barn hi, nid yw cwmnïau'n cael eu hysgogi i fabwysiadu arferion cynaliadwy ac nid ydynt yn gweld unrhyw fantais iddynt wneud hynny o fewn y broses gaffael bresennol. Dywedodd y dylid annog cwmnïau i ddefnyddio arferion cynaliadwy ac y dylent fod yn rhan o'r asesiad yn y broses gaffael. Drwy hynny, byddai cwmnïau cynaliadwy'n cael mantais ar gwmnïau eraill, llai cynaliadwy, a fyddai'n cystadlu yn eu herbyn.
- 3.20 Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet i Anne am godi'r pwynt hwn a dywedodd y byddai'n falch o gael awgrymiadau ymarferol ynghylch sut i roi hyn ar waith. Dywedodd y gellid mabwysiadu'r un drefn ar gyfer y Contract Economaidd pe bai set glir o feini prawf yn cael eu datblygu.
- 3.21 Cytunodd San Leonard mai'r brif ystyriaeth yw'r mesuriadau a ddefnyddir. Dywedodd fod mesuriadau'n cael eu defnyddio eisoes mewn rhai meysydd fel tai ac y gellir symleiddio ac addasu'r rhain.
- 3.22 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei bod yn hanfodol cael rhagor o wybodaeth am y maes hwn ac, os oedd unrhyw fusnesau enghreifftiol i'w cael, byddem am wybod amdanynt i'n helpu yn y cyswllt hwn.
- 3.23 Cytunodd Derek Walker i ddod o hyd i enghreifftiau o fusnesau yn y Trydydd Sector at y diben hwn.

Cam gweithredu 2 - Derek Walker i ddod o hyd i enghreifftiau o fusnesau yn y Trydydd Sector sy'n defnyddio arferion cynaliadwy.

- 3.24 Dywedodd Derek Walker mai dim ond cysyniad oedd yr economi sylfaenol ar hyn o bryd ac mae angen ei gwireddu drwy gymryd camau go iawn. Fel enghraifft o'r hyn y gellir ei wneud, soniodd fod pedair cymdeithas dai ym Mlaenau Gwent wedi dod ynghyd i asesu sut y gallant ddefnyddio'r gwariant yn lleol. Y cam cyntaf oedd asesu'r holl wariant ac yna penderfynu sut y gellid newid y gwariant. Awgrymodd y dylid cefnogi prosiectau peilot fel hyn neu helpu i ehangu prosiectau llwyddiannus i rannau eraill o Gymru.
- 3.25 Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet fod dyraniad cyllideb o £1.5 miliwn wedi'i gytuno ar gyfer y sector sylfaenol. Byddai hyn yn cael ei wario ar feysydd fel gofal cymdeithasol, adwerthu, bwyd, twristiaeth a chynlluniau preifat eraill. Roedd yn awyddus i weld llwyddiannau sydyn yn y sector sylfaenol. Diolchodd Derek am ei gynnig i ddod o hyd i enghreifftiau o fusnesau a phrosiectau i'w hystyried a gofynnodd i'r aelodau eraill wneud hynny hefyd.
- 3.26 Croesawodd Peter Williams y ffaith bod y Cynllun yn cydnabod gwerth y sector sylfaenol i'r economi. Awgrymodd fod yr economi sylfaenol yn fwy na dim ond y pedwar sector roedd y Cynllun yn canolbwyntio arnynt. Awgrymodd fod angen i Lywodraeth Cymru gydnabod gwerth y sector cyfan ac i beidio â chanolbwyntio dim ond ar y rhannau hynny o'r sector sylfaenol sy'n tyfu'n gyflym.
- 3.27 Mewn ymateb i Peter Williams, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet nad yw'r Cynllun yn canolbwyntio dim ond ar fusnesau sy'n tyfu'n gyflym oherwydd hyd yn oes oed nad yw busnes yn tyfu, mae'n bosibl ei fod yn cyfrannu'n sylweddol at yr economi leol. Byddai'r Contract Economaidd yn gymwys i fusnesau cymdeithasol yn ogystal ag unrhyw fusnes arall.
- 3.28 Holodd Ann Meikle am y cynllun ar gyfer economi gylchol a'r amserlen ar gyfer hynny. Esboniodd Stephen Layne mai swyddogion Cyfoeth Naturiol oedd yn arwain y gwaith hwn yn Llywodraeth Cymru ac roeddent wedi cytuno i roi'r manylion i Anne.

Cam 3 – Swyddogion i roi manylion cyswllt y tîm yn Llywodraeth Cymru syn' gyfrifol am y gwaith yn ymwneud â'r economi gylchol.
--

- 3.29 Dywedodd Brychan Tudor ei fod yn cynrychioli 400 o aelodau anabl a'i fod am wybod sut y bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn sicrhau bod cyfleoedd ar gael i bobl anabl ac y byddent yn ganolog, yn hytrach na'n ymylol, i'r cynlluniau. Dywedodd hefyd y dylid ystyried problemau iechyd meddwl hefyd.
- 3.30 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod nifer o fesurau ar waith eisoes i sicrhau bod hynny'n digwydd a bod y rhain yn ymestyn i'r holl adrannau, nid dim ond ei adran ef. Mae trafniadaeth, iechyd a gofal cymdeithasol i gyd yn feysydd pwysig i'w hystyried o ran cyfle a mynediad cyfartal. Cyfeiriodd at y canolfannau arloesi sy'n cael eu treialu yn Wrecsam a hefyd rôl addysg uwch ac addysg bellach yn y cyswllt hwn.
- 3.31 Gofynnodd Derek Walker i Ysgrifennydd y Cabinet gadarnhau a oedd yn cytuno y dylid sefydlu Fframwaith Trydydd Sector fel y nodwyd ym mhapur y Trydydd Sector.

- 3.32 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei bod yn bwysig bod y Trydydd Sector yn cael ei gydnabod. Cyfeiriodd at waith Martin Sheen yn y maes hwn. Awgrymodd y dylem adolygu'r gwaith hwn cyn mynd at i ddatblygu fframwaith.
- 3.33 Dywedodd Matt Brown y caiff Michael Sheen ei gyflwyno ond nid oedd yn gwybod pryd y byddai'n cael ei gwblhau.

Cam gweithredu 4 - Swyddogion i holi pryd y caiff gwaith Martin Sheen ei gwblhau.

- 3.34 Daeth Ysgrifennydd y Cabinet â'r cyfarfod i ben drwy ddiolch i bawb am eu hamser a'u cyfraniad. Dywedodd y byddai swyddogion yn trefnu dyddiadau'r cyfarfod nesaf maes o law gan ystyried amserlen y broses ymgysylltu.

Diwedd y cyfarfod